

Steffan ap Owain yn trafod Hen Lyfrwerthwyr 'Stiniog 1850-1910

Rhagair

Hyd at flynyddoedd yr 1850au, prin iawn oedd y siopau - o unrhyw fath - ym mhlwyf Blaenau Ffestiniog benbwgilydd. Yn wir, ac eithro ambell siop groser fechan, siop gigydd, tŷ pobi a rhyw un neu ddwy o rai eraill a geid ym mhentref Llan Ffestiniog a rhanbarthau Congl-y-Wal, Y Manod, Bethania, Rhiwbryfdir a Thanygrisiau, nid oedd fawr o ddewis yma. A phrin fod angen dweud y bu'n rhaid i lawer o ddŵr fynd o dan y bont cyn y gwelwyd tref Blaenau Ffestiniog yn dod i'w hoed ac yn gallu brolio bod ganddi hi resi o siopau llewyrchus.

Serch y prinder a diffyg siopau yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a'r ffaith nad oedd un siop lyfrau ar gael yma cyn tua chanol yr 1850au, nid oedd hynny'n golygu nad oedd gan drigolion ein hardal unrhyw fath o lyfr yn eu meddiant, chwaith. Heb os nac onibai, roedd gan y mwyafrif o gartrefi'r Blaenau gopi o'r Beibl erbyn tua 1850, ac yn ddiaw, un neu ddau o lyfrau diwinyddol yn ogystal.

Eto i gyd, pan ddechreuwyd cyhoeddi gweithiau rhai o'n beirdd ac awduron lleol oddeutu'r 1850au a'r 1860au cynnar, byddai'n rhaid i'n hardalwyr gyrchu i leoedd fel Y Bala, Llanrwst, Pwllheli, Dolgellau a Chaernarfon, sef hen drefi marchnad, er mwyn eu hargraffu gan nad oedd yr un argraffdy wedi'i sefydlu yn 'Hen Dref y Glaw' yn y cyfnod hwn. Yn wir, cyn tua chanol 1850au, yr unig ffordd y gellid prynu llyfrau o waith awduron lleol oedd trwy alw i weld yr awdur neu'r bardd ei hun yn ei gartref, neu'n ei weithle, efallai, a phrynu un ganddo, h.y. os nad oedd wedi gwerthu'r cwbl, wrth gwaers!

Ond, newid ddaeth o rod i rod. Cynyddodd poblogaeth plwyf Ffestiniog gyda datblygiad a llwyddiant y diwydiant llechi, fel erbyn y flwyddyn 1861, roedd cymaint â 4553 o bobl yn trigo yma, ac yn ystod y deugain mlynedd a'i dilynodd, adeiladwyd peth wmbredd o dai newydd ac agorwyd lliaws o siopau a chodwyd nifer o adeiladau o bwys yn y gymdogaeth. Dyma'r adeg pryd y daeth Blaenau Ffestiniog i gael ei hadnabod fel 'Dinas y Llechi' a thyfu i fod yn dref fwyaf Sir Feirionnydd. Cofier, hefyd, mai dyma'r cyfnod yr adnabyddid y chwarelwyr fel y dosbarth gweithredol mwyaf goleuedig yng ngogledd Cymru! Do, fe gafodd un neu ddau o werthwyr llyfrau gynhaeaf bras yn 'Stiniog' yn ystod y degawdau llewyrchus hyn.

* * *

Siopau Llyfrau Cyntaf y Blaenau

Serch bod cyfeiriad at un Evan Richard, 'Bookseller' yn rhanbarth Bethania ar Gyfrifiad 1841, credaf mai'r siop lyfrau gyntaf i'w hagor yn y Blaenau 'ma oedd 'Siop Robert Thomas, Bethania'. O beth gasglaf, roedd hynny oddeutu 1854/55. Yn ddiweddarach, agorwyd un gan Henry Roberts yn Adwy Goch, Rhiwbryfdir, sef siop fechan gydag un ffenestr iddi hi ar gyfer llyfrau. Roedd y siop fach hon mewn lle delfrydol ar gyfer y cannoedd o chwarelwyr a gerddai heibio i'r lle yn feunyddiol ar eu ffordd i'w gwaith yn Chwareli Oakley a Llechwedd yn y dyddiau a fu. Cedwid siop lyfrau fechan arall yng nghartref John Jones, 1 Cambrian Terrace, Tanygrisiau, sef y math o siop a geid yn ystafell ffrynt y tŷ neu yn y parlwr. Gyda llaw, roedd hefyd yn ysgolfeistr yn yr Ysgol



Blaenau Ffestiniog ddechrau'r ganrif ddiwethaf.

Frutaniadd ar y pryd. Bu'r tri gŵr hyn, yn ogystal â'u teuluoedd, o wasanaeth mawr yn yr ardal ac yn fodd i hogi diddordeb y trigolion mewn darllen llyfrau. Dilynwyd hwy gan nifer o rai eraill yn ddiweddarach fel erbyn blynyddoedd olaf yr 1860au a dechrau'r 1870au, ceid y llyfrwerthwyr canlynol wedi sefydlu yn ein tref a'r rhanbarthau cyfagos ac wedi agor siopau llyfrau newydd yma:

Robert Hughes, Stryd Fawr, Fourcrosses (h.y. tref Blaenau Ffestiniog, neu ran ohoni); John Jones, 1 Cambrian Terrace, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog - a enwyd eisoes; Robert Parry, Llan Ffestiniog; Ellis Roberts, the Workmens' Bookshop, 14 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog; Henry T. Roberts, Adwy Goch, Rhiwbryfdir, Blaenau Ffestiniog - a enwyd eisoes; Robert Thomas, Bethania, Blaenau Ffestiniog; John Williams, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog.

Dylid cofio y gwerthid llyfrau a chofnodolion gan yr argraffwyr D. J. Thomas (sefydlwyd 1869) a Jones ac Evans (sefydlwyd 1872), ac amryw o rai eraill yn ddiweddarach, fel y cawn weld maes o law, a cheid rhai ar werth ar stondinau Neuadd y Farchnad o bryd i'w gilydd yn ogystal. Erbyn tua diwedd y 1870au, ceid rhai fel H. P. Rees yn cynnig gwasanaeth rhwymo llyfrau yma hefyd.

Diddorol, mi gredaf, yw'r arolwg a wnaed oddeutu'r flwyddyn 1868 ar y nifer a'r math o lyfrau, cylchgronau a newyddiaduron a brynid ac a ddarllenid yn lleol. Rhydd y rhestr hon a godwyd o gyfrol *Hanes Ffestiniog* (1879) gan William Jones, 'Ffestinfab', amcan inni o'r math o ddeunydd a fyddai'n mynd â bryd darllenwyr cylch Ffestiniog yr adeg honno. Dyma restr blwyddyn:

Y Gwyddoniadur	150
Testament yr Ysgol Sabbothol	400
Traethodydd	100
Y Drysorfa	170
Trysorfa'r Plant	360
Y Dysgedydd	36
Cronicl Bach	160
Baner ac Amserau Cymru (y ddwy)	300
Herald Cymraeg	500
Cronicl Cymru	250

Noda'n ogystal fod

'dosbarth o lyfrau eraill wedi bod yn boblogaidd iawn yn y plwyf ac yn gwneuthur

eu rhan yn dda er goleuo yr ardalwyr, yn enwedig mewn diwinyddiaeth, ac y maent i'w canfod ar nifer mawr o aelwydydd hyd y dydd heddiw, ac aml i un yn barod i ddilyn eu hymresymiaid gyda manylruwydd. Cyfeirio yr ydym at 'Eiriadur Charles', Diwinyddiaeth Hodge, Patterson Smith, Brown, Edward ar yr Iawn. Rees ar yr Hebreaid, & Cofus gennym am un hen flaenor eglwysig sydd bellach "wedi ei gludo at ei dadau" yn annog i ddarllen llyfrau da, ac yn eu mysg Patterson Smith o gyfieithiad y Parch O. Jones. "Byddai'n well gennyf", meddai, "ymadael a'r fwrch orau sydd gennyf nag ymadael ag ef (sef y llyfr) a buasai honno yn un o ddŵy", canys dyma gynnwys ei fuches ef fel llawer chwarelwyr sydd yn amaethu ychydig gyda'i ddiwrnod gwaith..."

Tybed a yw rhai o aelodau Cymdeithas Bob Owen yn meddwl cymaint o'u llyfrau ag yr oedd yr hen fachgen uchod?

* * *

Hen Lyfrwerthwyr Teithiol

Cymaint oedd y galw am lyfrau, a'r syched am ddarllen, yn ystod y cyfnod 1850-1910 fel bod rhai 'lyfrwerthwyr teithiol' wedi sylweddoli fod marchnad eithaf buddiol i'w chael yn chwareli llechi'r ardal hon, a sawl un arall o ran hynny. Cofier, roedd rhai cannoedd yn gweithio yn ein chwareli yn y cyfnod hwn a llawer o'r rheiny yn ddarllenwyr brwd iawn. Mae'n edrych yn debyg ei bod hi'n werth i ambell lyfrwerthwr teithiol gerdded sawl milltir er mwyn gwerthu eu stoc llyfrau a chofnodolion. Er enghraifft, byddai William Owen, Bethesda, Sir Gaernarfon yn galw heibio i'n chwareli yn y Blaenau 'ma mor gynnar â'r 1860au, os nad ynghynt, ond dengys yr adroddiad canlynol a ymddangosodd yn yr Herald Cymraeg, Chwefror 1869, y gallai gwerthu llyfrau, hyd yn oed, fod yn waith digon enbydus mewn chwarel:

'Damwain - Y mae hen frwad arall o gymdogaeth Bethesda yn arfer ymweld a'n hardal ers blynyddoedd fel lyfrwerthwr. Y mae un o'n hadgofion boreaf o William gyda'i focs a'i fwndel llyfrau yn traweyo y chwarelau gyda'i gwestion arferol. A oes arnoch ddim eisiau llyfrau heddiw?' ac fel arfer, daeth yr wythnos hon; ond, er ei ofid bu yn hymod ansffodus. Borau dydd Llun, pan yn croesi un o bontydd Chwael Rhiwbryfdir, synthiodd yr hen frwad trosodd i ddyfnder